**Cofnodion o gyfarfod Cyfarwyddwyr Hybu Cig Cymru (HCC) a gynhaliwyd am 10am Yn Nhŷ Rheidol, Aberystwyth ddydd Iau 7 Mawrth 2024**

**Yn Bresennol:** Cath Smith (Cadeirydd)
Gareth Wynn Davies, John T Davies (Teams), Rhys Davies (Teams), Jack Evershed, Hugh Hesketh-Evans, Mike Humphreys, Prys Morgan, Emlyn Roberts, Caroline Sanger-Davies, Vicki Spencer-Francis

**Trwy Wahoddiad:** Vicky Jones, Pennaeth Is-adran Amaethyddiaeth, Cynaliadwyedd a Datblygu, Llywodraeth Cymru (Teams, 11.30am – 1.30pm)

**Y Swyddogion** Heather Anstey-Myers, Prif Weithredwr Dros-dro
Julie Davies-Jones (Ysgrifenyddiaeth)
Pip Gill, Swyddog Gweithredol Ymgyrchoedd – Eitem 6f
Gareth Jones, Pennaeth Cyllid a Llywodraethiant Corfforaethol
Rachael Madeley-Davies, Pennaeth Cynaliadwyedd a Pholisi'r Dyfodol
Elizabeth Swancott, Uwch Swyddog Ymchwil a Datblygu – Eitem 6g

1. **Croeso a Sylwadau'r Cadeirydd**

Croesawyd pawb i gyfarfod y Bwrdd gan y Cadeirydd. Yn benodol, rhoddwyd croeso cynnes i Heather Anstey-Myers, Prif Weithredwr Dros-dro HCC, a oedd yn mynychu ei chyfarfod ffurfiol cyntaf o'r Bwrdd.

Rhoddodd y Cadeirydd ddiweddariad o ddigwyddiadau a chyfarfodydd allweddol y bu'n eu mynychu oddi ar y cyfarfod blaenorol:

16 Ionawr 2024 – Bu'r Cadeirydd mewn cyfarfod o Fforwm Arweinwyr Cyhoeddus Llywodraeth Cymru.

24 Ionawr 2024 – Bu'r Cadeirydd a'r Uwch-dîm Arweinyddiaeth yn rhith-gyfarfod Llywodraethiant Chwarterol Llywodraeth Cymru a HCC. Hefyd, mynychodd y Cadeirydd gyfarfod Cangen Y Gelli o NFU Cymru.

1 Chwefror 2024 – Cyfarfod diweddaru Bwrdd HCC (Teams).

6 Chwefror 2024 – Cyfarfod o Grŵp Rhanddeiliad Amaeth-Fwyd Llywodraeth Cymru.

22 Chwefror 2024 – Bu'r Cadeirydd yn cymryd rhan mewn cyfarfod rhagarweiniol i'r Prif Weithredwr Dros-dro a'r Pennaeth Cyllid a Llywodraethiant Corfforaethol gyda swyddogion Llywodraeth Cymru / Tîm Noddi.

20 & 21 Chwefror 2024 – Y Cadeirydd a Phennaeth Cynaliadwyedd a Pholisi'r Dyfodol yn mynychu Cynhadledd Flynyddol yr NFU, Rhydychen.

26 Chwefror 2024 – Cyfarfu'r Cadeirydd â'r Gweinidog, Lesley Griffiths, AoS. Yn ystod y cyfarfod, diolchodd y Gweinidog i'r Bwrdd a'r staff am barhau i ddarparu ar ran y sefydliad a'r diwydiant cig coch yng Nghymru yn ystod amserau heriol.

29 Chwefror 2024 – Bu'r Cadeirydd mewn rhith-gyfarfod o Fwrdd Cynghori Strategol Cyswllt Ffermio.

5 Mawrth 2024 – Bu'r Cadeirydd a'r Prif Weithredwr Dros-dro mewn sesiwn hyfforddi cyfryngol.

Parhaodd cyfarfodydd Teams cyson gyda'r Prif Weithredwr Dros-dro.

2. **Ymddiheuriadau am absenoldeb**

Nodwyd ymddiheuriadau gan Gwyn Howells, Prif Weithredwr (seibiant salwch) a Laura Pickup, Pennaeth Marchnata Strategol a Chysylltiadau.

3. **Datganiadau o Fuddiannau**

Nid oedd unrhyw Ddatganiadau o Fuddiannau unigol newydd.

Tynnwyd sylw at wall yn un o bapurau'r Bwrdd, a gafodd ei dynnu nôl a'i ailddosbarthu. Cytunwyd y byddai'r Prif Weithredwr Dros-dro yn adolygu'r broses.

**Gweithredu: Prif Weithredwr Dros-dro**

4. **I gymeradwyo cofnodion o gyfarfodydd y Bwrdd:**

*a. Cyfarfod y Bwrdd a gynhaliwyd ddydd Iau 11 Ionawr 2024 (HCC 1177)*

Cymerwyd bod yr uchod wedi ei ddarllen, a chafodd ei gymeradwyo gan y Bwrdd yn amodol ar ddileu “Diweddariad y Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol ar dudalen 9 / Eitem 14.

*b. Cyfarfod diweddaru Teams y Bwrdd a gynhaliwyd ddydd Iau 1 Chwefror 2024 (HCC 1178)*

Cymerwyd bod yr uchod wedi ei ddarllen, a chafodd ei gymeradwyo gan y Bwrdd.

5. **Materion yn codi o Eitemau 4a a 4b uchod**

*Eitem 4a*

Nodwyd bod yr holl gamau gweithredu o'r cofnodion wedi eu cymryd.

*Eitem 4b*

Nodwyd nad oedd unrhyw faterion yn codi a bod yr holl gamau gweithredu o'r cofnodion wedi eu cymryd.

Byddai'r Pennaeth Cynaliadwyedd a Pholisi'r Dyfodol yn cynrychioli HCC yn nigwyddiad Pwyllgor Newid yn yr Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith y Senedd i randdeiliaid er mwyn ymgysylltu fwyfwy ag argymhellion Llywodraeth Cymru ar gyfer Cynllun Ffermio Cynaliadwy ar 13 Mawrth 2024.

6. **<u>Adroddiadau HCC</u>**

*a.* *<u>Adroddiad Darparu (HCC 1179)</u>*

Cymerwyd bod yr uchod wedi ei ddarllen.

Dywedodd y Bwrdd fod yr Adroddiad Darparu yn ddefnyddiol o ran adrodd ar weithgareddau a gwblhawyd. Fodd bynnag, teimlwyd y byddai'n ddefnyddiol cael trafodaethau dwy-ffordd mewn modd amserol yng nghyfarfodydd y Bwrdd, a hynny cyn ymrwymo i brosiectau mawr megis gwaith ymgyrchu ar gyfer defnyddwyr er mwyn gallu deall y costau cysylltiol, cynllunio a manteision buddsoddiadau, etc. Hefyd, gallai'r Bwrdd gynnig cymorth arbenigol pan fyddai hynny'n berthnasol.

Cytunwyd i ddiweddaru rhaglen waith y Bwrdd er mwyn pennu dyddiadau i gael tri phwynt cyfeirio ar agendau yn ystod y flwyddyn ariannol i ganiatáu ar gyfer amser a thrafodaeth yn unol â'r hyn a nodwyd uchod ac yn enwedig ar gyfer gwaith allweddol megis mentrau a phrosiectau marchnata. Byddai'r trafodaethau'n digwydd fel rhan o gyfarfodydd y Bwrdd, neu wedyn ar wahân. Byddai'r Uwch-dîm Arweinyddiaeth yn ymgymryd â hyn ac yn diweddaru'r Bwrdd yn y cyfarfod nesaf

**Gweithredu: Yr Uwch-dîm Arweinyddiaeth**

*b.* *<u>Crynodeb o Fwletin y Farchnad (HCC 1180)</u>*

Cymerwyd bod yr uchod a phapur HCC 1189 wedi'u darllen.

Cytunodd y Bwrdd fod y darlleniadau canrannol ac effaith costau cynyddol ar fusnesau fferm a nodwyd ym mhapur HCC 1189 yn bryderus dros ben. Nid oedd dyfodol busnesau a theuluoedd fferm yn gynaliadwy a byddai'r effaith yn sylweddol ar draws y gadwyn gyflenwi.

Câi'r papur gwybodaeth ei rannu gyda Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid allweddol. Nodwyd y byddai papur wedi ei ddiweddaru yn cael ei baratoi ar gyfer y Bwrdd ymhen chwe mis.

**Gweithredu: Pennaeth Cynaliadwyedd a Pholisi'r Dyfodol**

*c.* *<u>Digwyddiadau i ddod (HCC 1181)</u>*

Cymerwyd bod yr uchod wedi ei ddarllen.

*d.* *<u>Rhagolygon Gwariant 2023 – 2024 a Rhagolygon Cyllideb 2024 – 2025 (HCC 1182)</u>*

Gweler o dan Eitem 6e isod.

*e.* *<u>Cyfrifon Rheoli hyd at 31 Rhagfyr 2023 (HCC 1183)</u>*

Cyflwynwyd copïau o bapurau diwygiedig HCC 1182 a HCC 1183 gan y Pennaeth Cyllid a Llywodraethiant Corfforaethol.

Darparwyd crynodeb o'r gwariant a ragwelwyd ar gyfer 2023 – 2024 a nodwyd bod y gyllideb wreiddiol a ragwelwyd ar gyfer diwedd y flwyddyn yn gywir.

Tynnwyd sylw at faterion allweddol y dylai'r Bwrdd wybod amdanynt a chawsant eu nodi.

O ran Rhagolygon Cyllideb 2024 / 2025, cafodd gwybodaeth fanwl am y Gyllideb ddrafft ar gyfer 2024 / 2025, tybiaethau allweddol, crynodeb Incwm a Gwario, Sensitifedd Dadansoddi a Rheoli Risg eu cyflwyno i'r Bwrdd ym mhapur HCC 1182.

Nodwyd bod HCC yn cymryd nifer o gamau i liniaru'r ansicrwydd ar gyfer y dyfodol. Cafodd y cyllidebau eu paratoi ar sail geidwadol gyda mesurau wrth gefn i liniaru amrywiad. Ar hyn o bryd roedd yr arian parod wrth gefn yn ddigonol ac yn caniatáu ar gyfer unrhyw ddiffygion anfaterol byrdymor yn ystod y flwyddyn. Byddai'r Uwch-dîm Arweinyddiaeth yn dal i chwilio am gyfleoedd i fod yn fwy effeithlon drwy leihau gwariant pan fyddai hynny'n briodol a chynyddu incwm. Roedd rhaglen effeithlonrwydd yn cael ei datblygu ar hyn o bryd yn fewnol.

*f.* *<u>I dderbyn cyflwyniad am werthusiad o ymgyrch Cig Oen Cymru 2023</u>*

Cafwyd cyflwyniad am yr uchod gan Swyddogion Gweithredol yr Ymgyrch:

Pwysleisiwyd bod Cymru a Lloegr, yn y gorffennol, wedi cael eu gwerthuso ar y cyd. Eleni penderfynwyd eu gwerthuso ar wahân er mwyn cael gwell gwybodaeth am ddarpariaeth yn y dyfodol.

Cafodd y tîm ei longyfarch gan y Bwrdd am ei waith ar yr ymgyrch Cig Oen a'r canlyniadau positif a gafwyd.

Cytunwyd y dylid darparu papur gwybodaeth ynghylch tueddiadau ymwybyddiaeth y defnyddwyr i'r Bwrdd ar gyfer y cyfarfod nesaf. Yn ogystal, rhoddid diweddariad o'r gwerthusiad a seiliwyd ar waith HCC mewn perthynas â gwaith eiriolaeth ac amddiffyn HCC.

**Gweithredu: Pennaeth Marchnata Strategol a Chysylltiadau**

Roedd y gwerthusiad o'r ymgyrch Cig Eidion ar waith a cheid adroddiad yng nghyfarfod y Bwrdd ar 2 Mai 2024.

**Gweithredu: Pennaeth Marchnata Strategol a Chysylltiadau**

*g.* <u>*I dderbyn cyflwyniad ynghylch* Grŵp Pobl Ifainc HCC</u>

Rhoddodd yr Uwch Swyddog Ymchwil a Datblygu gyflwyniad ar yr uchod:

Mabwysiadwyd y syniad o Grŵp Pobl Ifainc (ni chytunwyd ar yr union enw eto) yn dilyn ymgysylltiad yn nigwyddiadau HCC i fyfyrwyr yn y colegau amaethyddol, lle dangosodd y myfyrwyr ddiddordeb yng ngwaith HCC ac yn enwedig yn y maes ymchwil a datblygu. Hefyd, cafwyd adborth ynghylch gweithio gyda'r genhedlaeth iau yng nghynhadledd flynyddol HCC a thrwy Ysgoloriaeth HCC. Roedd trafodaethau wedi cymryd lle yn fewnol a chytunwyd i symud ymlaen â chreu Grŵp Pobl Ifainc er mwyn ymgysylltu â'r genhedlaeth iau yn y diwydiant a thynnu eu sylw at waith HCC, ynghyd â chyfoethogi eu profiad ehangach o gadwyn gyflenwi cig coch Cymru.

Bwriadwyd penodi tua deg aelod rhwng 21 a 35 mlwydd oed sy'n gweithio i neu sy'n ymwneud â chadwyn gyflenwi cig coch Cymru. Byddai'r rhaglen yn para am 12 mis i ddechrau a châi ei hadolygu wedyn.

**Gweithredu: Yr Ysgrifenyddiaeth**

7. **<u>I dderbyn diweddariad am Gyfraddau Ardoll Cig Coch Cymru a argymhellir ar gyfer 2024 / 2025</u>**

Nodwyd bod ebost gan Lywodraeth Cymru wedi cael ei dderbyn ar 7 Mawrth 2024 yn cadarnhau bod y Gweinidog Materion Gwledig, Lesley Griffiths AoS wedi cytuno â'r cynnydd arfaethedig yng Nghyfraddau'r Ardoll Cig Coch 2024 / 2025.

8. **<u>Corfforaethol</u>**

a. *<u>I ystyried Cynllun Busnes drafft HCC ar gyfer 2022 / 2026 (HCC 1184)</u>*

Cymerwyd bod yr uchod wedi ei ddarllen ac fe'i cyflwynwyd gan y Pennaeth Cynaliadwyedd a Pholisi'r Dyfodol.

Yn dilyn trafodaeth fanwl, nodwyd mân newidiadau a châi'r Cynllun ei ddiweddaru yn unol â'r rheiny. Yn ogystal, cytunwyd darparu gwybodaeth bellach yn y Cynllun Busnes drafft i gynnwys gwybodaeth gyllidebol ar y lefel uchaf a thymor Dangosyddion Perfformiad Allweddol y Llywodraeth.

**Gweithredu: Yr Uwch-dîm Arweinyddiaeth**

b. *<u>I ystyried Cynllun Gweithredol drafft olaf HCC ar gyfer 2024 / 2025 (HCC 1185)</u>*

Cymerwyd bod yr uchod wedi ei ddarllen ac fe'i cyflwynwyd gan y Pennaeth Cynaliadwyedd a Pholisi'r Dyfodol.

Gan ystyried materion a drafodwyd o dan Eitemau 6d a 6e, ac yn dilyn trafodaeth, cytunwyd bod angen gwaith ychwanegol er mwyn darparu cyllideb gytbwys. Gwneid hyn gan yr Uwch-dîm Arweinyddiaeth. Byddai angen gwaith cyflym er mwyn bodloni terfynau amser.

Cai'r Bwrdd wybod drwy ebost pan fyddai'r gwaith hwn wedi ei gwblhau a châi'r Cynlluniau diwygiedig eu lanlwytho i Sharepoint i gael eu cymeradwyo.

**Gweithredu: Yr Uwch-dîm Arweinyddiaeth**

c. *<u>I ystyried rhaglen ddrafft HCC i'r Bwrdd ar gyfer 2024 / 2025 (HCC 1186)</u>*

Cymerwyd bod yr uchod wedi ei ddarllen, a chafodd ei gymeradwyo gan y Bwrdd.

9. **Pwyllgorau HCC**

*Y Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg*

a. *I dderbyn adroddiad llafar am gyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg a gynhaliwyd ddydd Llun 26 Chwefror 2024*

Rhoddodd Cadeirydd y Pwyllgor, Gareth Davies, ddiweddariad llafar am feysydd allweddol y cyfarfod.

- Statws TAW HCC - Nid oedd diweddariad i'w roi. Cytunwyd y byddai angen paratoi llinellau cyfathrebu allanol ar gyfer y mater hwn. Byddai'r Uwch-dîm Arweinyddiaeth yn trefnu hyn.

  **Gweithredu: Yr Uwch-dîm Arweinyddiaeth**

- Cofrestr Risg HCC – Roedd dwy weithred ar y gweill. Maes o law, pan fyddai'r fframwaith newydd yn ei le, fe'u rhoddid ar waith. Nodwyd y camau gweithredu hyn - Risg S4: canfyddiad y cyhoedd o gig coch. Gofynnwyd pam nad oedd y risg gweddilliol yn lleihau pan fo camau lliniaru o dan reolaeth HCC. Hefyd, O10: ystyriaeth i'w roi ynghylch a ellir diffinio risgiau twyll unigol yn gliriach.

- Archwiliad Mewnol – Rhoddwyd diweddariad i'r cyfarfod gan Archwilwyr Mewnol HCC. Cafwyd adroddiad drafft ar gyfer yr archwiliad Statudol a Gofynion Rheoleiddiol gyda barn gyfyngedig.
  Darparwyd diweddariad o'r camau gweithredu a gymerwyd ar ôl archwiliadau blaenorol dros y ddwy flynedd ddiwethaf. Roedd nifer gyfyngedig o gamau gweithredu heb eu cymryd ac roedd yr Archwilwyr Mewnol yn fodlon fod cynllun yn ei le i ddelio â'r rhain.

- Roedd cynllun gweithredu yn ei le i fynd i'r afael â materion a nodwyd pan archwiliwyd Swyddogaeth a Gwydnwch Technoleg Gwybodaeth. Gwneid adolygiad ymhen chwe mis.

- Archwiliad Allanol – Rhoddwyd diweddariad gan Archwilio Cymru o Gynllun Diwedd Blwyddyn 2023 / 2024. Byddai cynllun cyflawn yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor yn y cyfarfod ar 11 Mehefin 2024 a châi'r Bwrdd ddiweddariad yn unol â hynny.

- Datganiad Terfyn Risg; Polisi Rheoli Risg – Cafodd y naill ddogfen a'r llall eu hadolygu a'u cymeradwyo gan y Pwyllgor gydag argymhelliad i'w cyflwyno i'r Bwrdd am gymeradwyaeth – Gweler Eitemau 9b a 9c.

- Bu Cadeirydd y Pwyllgor a'r Pennaeth Cyllid a Llywodraethiant Corfforaethol yn rhith-bresennol mewn cyfarfod, a hyrwyddwyd gan Archwilio Cymru, o Gadeiryddion a Phenaethiaid Pwyllgor Yswiriant Archwilio a Risg (ARAC) y Llywodraeth Ganolog ar 29 Chwefror 2024.

- Rhoddwyd diweddariad am Reoli Credyd heb unrhyw faterion i'w hamlygu.

- Llywodraethiant Gwybodaeth – Yn dilyn cwblhad holiadur diogelwch blynyddol Llywodraeth Cymru ar gyfer 2022 / 2023, roedd yn dda nodi bod asesiad o HCC wedi dangos ei fod yn cydymffurfio'n dda â safonau diogelwch.

- Roedd Amodau Gorchwyl y Pwyllgor yn cael eu hadolygu ar hyn o bryd gan y Prif Weithredwr Dros-dro a'r Pennaeth Cyllid a Llywodraethiant Corfforaethol.

*b.* *I gymeradwyo Polisi Rheoli Risg HCC (HCC 1187)*

Cymerwyd bod yr uchod wedi ei ddarllen, a chafodd ei gymeradwyo gan y Bwrdd.

*c.* *I gymeradwyo Datganiad Terfyn Risg HCC (HCC 1188)*

Cymerwyd bod yr uchod wedi ei ddarllen, a chafodd ei gymeradwyo gan y Bwrdd.

Y Grŵp Arloesi ac Ymchwil Cynaliadwy

*d.* *I dderbyn diweddariad llafar o Grŵp cyntaf HCC ar gyfer Arloesedd ac Ymchwil Cynaliadwy a gynhaliwyd ddydd Mawrth 27 Chwefror 2024*

Rhoddodd Cadeirydd y Grŵp, Emlyn Roberts, ddiweddariad llafar:

Roedd cyfarfod cyntaf y Grŵp wedi bod yn bositif dros ben, gyda'r holl aelodau namyn un yn bresennol yn HCC. Cafwyd sgyrsiau didwyll ac eang am yr heriau sy'n wynebu'r diwydiant. Hefyd, trafodwyd cyfleoedd a meysydd allweddol a blaenoriaethol a fyddai'n cael eu hystyried wrth symud ymlaen.

Rhoddwyd cyflwyniad am gyfeiriad strategol HCC o ran cynaliadwyedd ac am weithgaredd Ymchwil a Datblygu HCC ar hyn o bryd**.**

Byddai'r Grŵp yn cyfarfod deirgwaith y flwyddyn a byddai'r cyfarfod nesaf ar 16 Mai 2024 yn rith-gyfarfod.

10. **Papur i'w drafod: Chwyddiant y gadwyn gyflenwi (HCC 1189)**

Rhoddwyd sylw i hyn o dan Eitem 6b uchod.

11. **Papur er gwybodaeth: Newidiadau i reolau TB mewn Gwartheg (HCC1190)**

Cymerwyd bod yr uchod wedi ei ddarllen.

12. **Unrhyw fater arall**

*Treuliau'r Bwrdd*

Cafodd y Bwrdd ei atgoffa i gyflwyno ceisiadau am dreuliau i'r Pennaeth Cyllid a Llywodraethiant Corfforaethol cyn gynted â phosibl.

**Gweithredu: Y Bwrdd**

*Materion y Cadeirydd*

Dywedodd y Cadeirydd ei bod wedi derbyn swydd newydd gyda thîm adfywiad awdurdod lleol Bro Morgannwg.

Nodwyd nad oedd unrhyw ddiweddariad hyd yma ynghylch sefyllfa'r Cadeirydd o ran ailbenodi.

Awgrymodd y Cadeirydd bod Aelod o'r Bwrdd, Vicki Spencer-Francis, yn rhoi cyflwyniad byr mewn cyfarfod o'r Bwrdd yn y dyfodol am ei gwaith gyda Chomisiwn Cenedlaethau'r Dyfodol mewn perthynas â Chydraddoldeb, amrywioldeb a chynhwysiad i weld pa wersi y gellid eu dysgu o'i phrofiad ac i rannu arferion gorau. Cytunwyd ar hyn.

13. **Dyddiadau cyfarfodydd i ddod**

Diweddaru'r Bwrdd drwy gyfrwng Teams – Dydd Iau 4 Ebrill 2024 am 9.30am
Cyfarfod o Fwrdd HCC – Dydd Iau 2 Mai 2024 am 10am

**Sesiwn Caeedig o Fwrdd HCC**

Dilynwyd gan gyfarfod cyfrinachol ac ar wahân o'r Bwrdd i drafod yr eitemau agenda a ganlyn:

**Llofnodwyd…………………………….**
**Cadeirydd HCC**